# LLOFFION LLANGYNFELYN

Cyfrol 3 - 1958

Rhifyn 12

-----

Braslun o Hanes y Chwarter

HYDREF - RHAGFYR 1958

ynghyd â

Lloffion Amrywiol

-----

PRIS 6ch

# LLOFFION LLANGYNFELYN

## Rhifyn 12, Ionawr 1959

Wele'r "Lloffion" bellach yn dair blwydd oed, a diolchwn i bawb am eu cydweithrediad caredig. Aeth 1958 heibio ac fe'i cofir, yn ôl y ffansi, fel blwyddyn yr ehedeg gwyllt (tua'r lleuad), helyntion cydwladol, haf gwlyb a'r hula-hoop.

Yn y plwyf cawsom y gweithgarwch arferol ynglŷn â'r capeli a'r eglwys, a chawsom ficer a chiwrad newydd. Darlledwyd dau gyfarfod o "Soar" a choffawyd canmlwyddiant Diwygiad Humphrey Jones. Yn "Rehoboth" cafwyd gwledd Gŵyl Ddewi bur anghyffredin, a gwnaethpwyd atgyweiriadau mawr ar y capel a'r festri. Gwelwyd mwy o gydweithrediad nac erioed rhwng yr enwadau a'r eglwys. Aed y duedd hon ar gynnydd!

Cawsom weithgarwch anghyffredin ynglŷn â Gŵyl Cymru, - Cymanfa, Eisteddfod y Tylwythau, Carnifal a Mabolgampau a The i'r Henoed. Bu'r Cyngor Plwyf a Sefydliad y Merched yn cyfarfod yn gyson, ac ailgodwyd tîm pêl-droed. I lawr yr aeth nifer y plant yn yr ysgol, ac aeth Taliesin yn bentref go dawel.

Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 5 genedigaeth, 4 priodas ac 11 marwolaeth. (Y ffigurau cyfatebol am 1956 oedd: 6; 8; 11; a'r ffigurau am 1957: 3; 5; 6). Ar ddiwedd 1957 yr oedd 25 o setiau teledu yn y plwyf; ar ddiwedd 1958 yr oedd 40. Ac ni welwyd erioed gynifer o gerbydau modur yn y plwyf - mae yma ryw hanner cant!

Yn y rhifyn hwn rhoddwn ddetholiad o gerddi William Ernest Pugh, Brynarian, a fu farw yn ystod y chwarter. Diolchwn i'w chwaer, Mrs.Elizabeth Jane Williams, Penbedw, am ganiatâd parod i'w cyhoeddi. Diolchwn hefyd i'r Dr.Richard Phillips am ei erthygl werthfawr a diddorol ar Ddoctor James y Fagwyr a Lodge Park, ac i Mr.J.R.Jones (Gwernfab) am ei ddarlun hyfryd o un o gymeriadau hoffus y plwyf, Ann Morgan.

Danfoner pob gohebiaeth i'r Golygydd, Tŷ'r Ysgol, Taliesin, Machynlleth.

---

## Braslun o Hanes y Chwarter: HYDREF - RHAGFYR 1958

| | | |
|---|---|---|
| Priodas: | Tachwedd 5. | MISS ANNE CATHERINE JENKINS, Y Gelli, Taliesin, â MR.RICHARD IORWERTH JENKINS, Ynysgreigiog, Eglwysfach - yn Eglwys Llangynfelyn. |
| Marwolaethau: | Hydref 18. | MR.JOHN JENKINS, Cefn Gweiriog, - yn 77 oed. |
| | Tachwedd 27. | MR.WILLIAM ERNEST PUGH, Brynarian, Taliesin, - yn 57 oed. |
| | Tachwedd 29. | MISS ANN JANE DAVIES, Pen-cae, Taliesin, - yn 77oed. |
| | Rhagfyr 28. | MRS.M.B.JAMES JONES, Llonio, - yn 84 oed. |

Rhyw dymor o weithgarwch ysbeidiol a fu hwn yn y plwyf.

Cyfarfodydd Diolchgarwch y Cynhaeaf.

Hydref 7. Cyfarfodydd Diolchgarwch yn Eglwys Llangynfelyn, - yn Saesneg y prynhawn a Chymraeg yn yr hwyr. Pregethwyd gan y Parch.D.Emlyn Lewis, Ficer Capel Bangor. Cynorthwywyd ef gan y Ficer, y Parch.Dewi Thomas, a'r Ciwrad, y Parch.Terence Thomas, a'r ddau weinidog lleol, y Parchn.Trefor Parry a Thomas Roberts yn darllen y llithiau.

Hydref 17. Cyfarfodydd Diolchgarwch y Capeli, - yn Soar yn y bore ac yn Rehoboth y prynhawn; dau gyfarfod gweddi. Yn yr hwyr cafwyd pregeth yn Soar gan y Parch.Trefor Parry.

Hydref 22. Cyfarfod Diolchgarwch yr Eglwys yn y Llan Fach. Pregethwyd yn yr hwyr gan y Parch.T.L.Bowen, Rheithor Llanglydwen.

Addurnwyd yr addoldai i gyd ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

REHOBOTH.

Bu gweithwyr Mr.E.Glyn Davies, Aberarth, wrthi'n brysur yn atgyweirio'r adeiladau. Buont wrthi'n plastro rhai o furiau'r capel a'r festri; yn peintio'r gwaith pren oddi allan yn ddu a gwyn a'r drysau yn lliw derw; ac yn peintio'r nenfwd yn hardd odiaeth. Bu hefyd nifer o welliannau eraill. Cost yr atgyweiriadau, heb gyfrif tâl y pensaer, oedd £670 : - :- , a chost peintio'r nenfwd yn £100.

Yn Rhagfyr ymadawodd Mrs.Sarah Davies â Manteg, wedi bod yn Geidwad y Capel am bedair blynedd. Bellach bwriedir moderneiddio tipyn ar y Tŷ Capel a hysbysebu am ofalwr newydd.

Er bod nifer yr aelodau yn cadw i fyny (82 ar ddiwedd y flwyddyn) aeth nifer y plant yn bur isel (13). Gwelir eu colled yn fawr yn yr Ysgol Sul, ac fe'i gwelwyd yn Oedfa Cynhaeaf y Plant, Hydref 5, dan ofal y Gweinidog. Daeth pob un o'r plant a gymerth ran â'i rodd i'w chyflwyno i Ysbyty Aberystwyth.

Hydref 7 ac 8. Gŵyl Bregethu. Pregethwyd gan y Parchn.Elfed G.Williams, Cydweli, ac Aneurin O.Edwards, Aberaeron.

Hydref 23. Noson Lawen a Chwpanaid o De i agor y Gymdeithas, dan ofal Mr.Hugh J.Evans, Tŷ'r Ysgol, Mrs.G.C.Jones, Tan-rallt, Mrs.Hywel Jenkins, Neuadd-yr-ynys, a Mrs.Gomer James, Cerrigcyrannau Isaf.

Hydref 28. Seiat ar "Beth yw'r Eglwys Esgobol?" Anerchwyd ac atebwyd cwestiynau gan y Parch.Terence Thomas.

Tachwedd 25. Cyfarfod Cystadleuol wedi ei drefnu gan Miss Ruth Jones, Y Berth, a Miss Jane F.Thomas, Tremfor. Y beirniaid oedd Mr.E.D.Jones, Y Dolau, a Mr.William Jenkins, Llandre. Cafwyd cynulliad reit dda ac eithaf cystadlu.

Rhagfyr 16. Darlith gan Mrs.Ithel Jones, Tal-y-bont, yn cael ei chynorthwyo ar y projector gan ei phriod. Cafwyd hanes ei thaith ramantus i Awstralia, a dangoswyd nifer o slides lliwiedig gwych.

Rhagfyr 23. Parti Nadolig i'r plant dan ofal swyddogion ac athrawon yr Ysgol Sul. Ar ôl te blasus cafwyd chwaraeon ac yna daeth Sion Corn go dal i gyflwyno anrhegion i'r plant. Edrychai'n o debyg i Mr.John Hefin Evans, Tŷ'r Ysgol, Arolygwr yr Ysgol Sul.

Rhagfyr 30. Rhoddwyd cyngerdd, "Pasiant y Nadolig" gan blant y chwaer eglwys, Nasareth, Tal-y-bont, wedi eu hyfforddi gan Mrs.T.Jones Pierce, B.A. Rhoddwyd te i'r plant a gymerth ran.

SOAR, TRE'RDDÔL.

Hydref 11. Aeth trip Cymdeithas y Bobl Ifainc i Blackpool i weld y goleuadau. Aeth y gwŷr i weled gêm o bêl-droed a'r meistr Stanley Mathews yn perfformio.

Tachwedd 10. Agorodd y Gymdeithas gyda The a Chyngerdd dan ofal y merched.

Tachwedd 17. Cafwyd noson o ffilmiau dan ofal Miss Mai Evans, Bronallt, a Miss Eiriona Davies, The Hall. Dangoswyd ffilmiau-strip ar "Genhadaeth yr Eglwys Gristionogol yng Ngogledd Affrica", "John Wesley yng Nghymru" ac "Eisteddfod Llangollen".

Rhagfyr 1. Bu Mr.Llywelyn Phillips, B.Sc., yn traethu, gyda chymorth slides, ar "Ddau Welltyn Glas". Dangosodd beth o'r ymchwil manwl a wneir i dyfiant a datblygiad y gwahanol weiriau yn y Fridfa Blanhigion Gymreig.

Rhagfyr 8. Rhoddwyd darlith ddiddorol iawn gan y Parch.Terence Thomas ar "Emrys ap Iwan".

Rhagfyr 22. Parti Nadolig Plant y Capel, dan nawdd yr Ysgol Sul. Cafwyd te a rhoddwyd anrhegion i bob plentyn.

Bu'r "Sisterhood" yn cyfarfod rai troeon ac ar Rhagfyr 9 cafwyd darlith gan y Parch.Trefor Parry, Cyfarfu'r Band of Hope fel arfer ar nos Fawrth.

Nifer yr aelodau yn Soar ar ddiwedd 1958 oedd 82.

EGLWYS LLANGYNFELYN.

Bu'r Band of Hope yn cyfarfod yn y Llan Fach a dechreuwyd Dosbarth Beiblaidd, - dau ddatblygiad canmoladwy iawn.

Tachwedd 27. Trefnwyd Gyrfa Chwist yn y Llan Fach.

---

SEFYDLIAD Y MERCHED (W.I.)

Fel arfer bu'r gymdeithas hon wrthi'n ddiwyd.

Hydref 31. Bu cyfarfod Calan Gaeaf arbennig, wedi ei drefnu gan Mrs.O.Bailey. Yr oedd yn cynnwys chwaraeon, dawns coes brws, adrodd ystraeon ysbrydion (a phob golau wedi'i ddiffodd ond golau lantarn feipen) a dweud ffortiwn. Cafwyd

hefyd gacen arbennig wedi'i haddurno â "Black Magic" gan Miss Dorothy Owen, Epworth.

<u>Rhagfyr 5</u>. Cyngerdd yn y Llan Fach. Y llywydd oedd Mrs.M.Taylor Rees Hughes, Maes-gwyn, a chyfrannodd yn hael i'r Gymdeithas. Cyflwynwyd hi gan Mrs.Embury, Llywydd y Gymdeithas. Y gyfeilyddes oedd Miss Jane F.Thomas, Tremfor, a'r arweinydd Mr.Hugh J.Evans, B.A., Tŷ'r Ysgol.

Cafwyd drama un-act enwog J.O.Francis, "The Bakehouse". Y chwaraewyr oedd Mrs.John Edwards, Glasfryn, Mrs.Hugh J.Evans, Tŷ'r Ysgol, Mrs.E.Tudor Pugh, Roman House, Mrs.Timothy S.Jones, Pen-cae, Miss Ruth Jones, Y Berth, Miss Sue Edwards, Coedmor, a'r Misses Janet a Mair Jones, Pen-cae. Perfformiwyd hon yn effeithiol iawn a chafodd dderbyniad teilwng gan gynulleidfa a ymatebodd yn dda i'r doniolwch.

Perfformiwyd dramodig arall, - "The Strange Case of Austin Perrin" gan Miss Ruth Jones, Mrs.Timothy S.Jones, Miss Janet Jones, Miss Jennie Pugh, y Llythyrdy, Mrs.G.C.Jones, Tan-rallt, Mr.William Rees, Dyfi Villa, a Mr.Hugh J.Evans a Geraint Evans, Tŷ'r Ysgol. Cynhyrchwyd y ddwy ddrama gan Mrs.Bailey yn cael ei chynorthwyo ar y llwyfan gan Miss Catherine W.Isaac, Hyfrydle.

Cafwyd nifer dda o eitemau, yn ganu a dawnsio, gan Rianedd Llangynfelyn, sef wyth o ferched ifainc yr ardal, - y Misses Mai Evans, Eiriona Davies, Ann Evans, Olwen Rowlands, Ann Davies, Ann Roberts, Helen Roberts a Jane Ellen Macdonald. Gwnaethant waith canmoladwy iawn. Miss Dorothy Owen a fu'n eu hyfforddi.

Canwyd nifer o ganeuon gan Barti'r W.I. dan arweiniad Miss Lilian M.Edwards, Llyscynfelyn, adroddiad gan Mrs.Bailey, cân gan Miss Eiriona Davies a chân ac adroddiad gan Mrs.W.D.H.Evans, Frongoch, Tre'rddôl.

Yr oedd yr adeilad yn orlawn a chafwyd cyngerdd gwirioneddol dda. Y farn gyffredin oedd "Llawer gwell na rhyw ddoniau mawr o bant".

<u>Rhagfyr 11</u>. Bu'r Gymdeithas yn dathlu'r Nadolig trwy gael Cinio Twrci yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont. Diolchodd Mrs.Embury, West View, i bawb am eu ffyddlondeb i'r mudiad drwy'r flwyddyn. Mrs.John T.Edwards, Glasfryn, yw ysgrifennydd diwyd y gymdeithas hon.

---

## <u>Y GYMDEITHAS BÊL-DROED</u>

<u>Tachwedd 2</u>. Bu Gyrfa Chwist gan y Gymdeithas, ac yn ystod y chwarter cynhaliwyd nifer o gyrddau er sicrhau cyllid. Bu'r tîm yn chwarae'n gyson ond heb fawr o lwyddiant. Dyfalbarhawyd gyda chwaraewyr lleol a thrwy hynny cawsant brofiad gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

---

## <u>PARTI CANU CAROLAU</u>

Eleni eto bu'r parti hwn o bobl ifainc, dan arweiniad Mr.Evan Ff.Lloyd, Gwarcwm Isa, yn canu o gwmpas y plwyf ar nosweithiau Rhagfyr 23 a 24. Casglwyd y swm anrhydeddus o £24. 1. 3c. at Gymdeithas T.B. Sir Aberteifi. Llongyfarchiadau i'r côr am ei ymdrechion ac i'r plwyfolion ar eu hymateb.

DYDD NADOLIG

Dymunol iawn oedd cael Cyfarfod Undebol yn Soar ar fore'r Nadolig, o dan lywyddiaeth y Parch.Terence Thomas. Cymerwyd rhan gan nifer o blant a phobl ifainc y plwyf. Bychan oedd y cynulliad, ond yr oedd naws hyfryd iawn i'r cyfarfod. Casglwyd y swm o £3. 12. 2c at y Cancer Relief Campaign.

Yn ddiweddarach bu gêm pêl-droed rhwng Tîm Taliesin a thîm arall o ardalwyr, a'r Parch.Terence Thomas yn rheolwr.

Yn y prynhawn digwyddodd anffawd a achosodd gryn ddiflastod; trwy ddiffyg yn y trawsnewidydd trydan yn Nhaliesin torrwyd y trydan i ffwrdd yn gyfan gwbl, a buwyd heb olau na radio na theledu am rai oriau.

---o---

Tachwedd 5. Ymadawodd ein cwnstabl lleol. Wedi nifer o flynyddoedd o wasanaeth diwyd a ffyddlon yn Nhal-y-bont a'r plwyf yma, ymadawodd P.C.49 Griffiths, (P.C.249 wedi i Heddluoedd Sir Aberteifi a Chaerfyrddin ymuno) am Aberaeron wedi ei ddyrchafu yn Rhingyll. Fe'i dilynwyd gan P.C.247 James a ddaeth i Dal-y-bont o Bowstreet.

Oherwydd i Eisteddfod Powys droi'n llwyddiant ariannol penderfynwyd trosglwyddo i bob ardal a gyfrannodd tuag ati ran o'r elw. Cafodd y plwyf yma £9 yn ôl, ac mewn cyfarfod cyffredinol pasiwyd i drosglwyddo'r arian i ofal y Pwyllgor Gwelliannau Lleol.

Teledu. Diddorol yw cofnodi bod Mr.Aneurin Talfan Davies o'r B.B.C. a gwŷr y camerâu teledu wedi bod o gwmpas yn tynnu lluniau o Warcwm-bach, yr Hen Gapel, capel Soar a phentref Tre'rddôl ar gyfer rhaglen yn rhoi hanes Diwygiad '59. Teledir hi tua Gŵyl Ddewi.

---o---

LLONGYFARCHIADAU I :-

(1) Mr.a Mrs.T.J.Pugh, Is-y-coed. Codwyd yr isod o'r Gwyliedydd Newydd ac ategwn bob gair yn galonnog.

"Llongyfarchwn Mr.a Mrs.T.J.Pugh ar ddathlu ohonynt bum mlynedd a deugain o "fywyd priodasol. ... Y mae Mr.Pugh yn Wesla o'r Wesleaid, yn un o oruch-"wylwyr Cylchdaith Aberystwyth, yn flaenor, yn arweinydd y gân, ac yn "ysgrifennydd yr ymddiriedolwyr yn Soar, Tre'rddôl. Bu ef a Mrs.Pugh yn "eithriadol o deyrngar i'n capel ni yma; yn wir amheuaf ambell waith a oes "capel Wesla tebyg i Soar yn eu golwg hwy, na phobl debyg i bobl Taliesin "a Thre'rddôl. Bu Mrs.Pugh yn fraich dde i'w phriod ar hyd y blynyddoedd, "a dymunwn i'r ddeuddyn caredig a chroesawus hyn flynyddoedd lawer eto yng "nghwmni ei gilydd ac yng nghymdeithas 'ein pobl ni' yn y rhan hon o winllan "yr Arglwydd".

(2) Mr.G.C.Jones, C.S., Tan-rallt, ar ei ddyrchafiad eleni i fod yn llywydd Pwyllgor Addysg Rhanbarth Aberystwyth.

LLONGYFARCHIADAU (parhad)

(3) Miss Mai Evans, Bronallt, am ysgrifennu dwy lith hir eleni eto i'r Gwyliedydd Newydd ar "Ysgol Haf yr Ysgol Sul" a gynhaliwyd yn Aberystwyth.

(4) Mr.William John Edwards, Tregerddan, Bow Street, (gynt o Terrace Row, Taliesin) ar fyned rhagddo i Goleg Diwinyddol y Bala ac am gynrychioli ei goleg yn yr Ymryson Areithio Cydgolegol.

-------o-------

## YR HEN DDOCTOR

gan

Dr.Richard Phillips, Argoed, Llangwyryfon

Ni ddysgais i erioed ei alw yn Wncl nac yn Ewythr, er ei fod yn perthyn i nhad ac yn briod â chwaer fy mam. Dyrchafodd ei alwedigaeth ef i lefel uwch nag 'ewythr' i grwt o gefn gwlad, ac am hynny gelwid ef bob amser gan ei deulu a'i dylwyth, fel gan ei gyfeillion a'i gydnabod yn Ddoctor James neu Ddoctor y Fagwyr.

Cynnyrch gwerinol ardal Llangwyryfon, o wead ac o waed, oedd John James, a rhoi iddo ei enw bedydd. Ganed ef ryw gan mlynedd yn ôl ar fferm Gilfachgoed neu Gilfachgwd ar lafar gwlad. Fferm fechan o ryw 16 cyfer oedd hon a phrin y gellid ei chyfri yn fferm economaidd ddiogel (viable economic holding) yn ôl deddfau'r oes hon. 'Roedd enillion y tir yn rhy fychan i gynnal teulu y dyddiau hynny hefyd, a dyna paham yr oedd ei dad, Dafi James, er ei fod yn berchen ei le, eto yn gweithio fel saer yn y cylch. Yr oedd ef yn flaenor yn Nhabor, yn godwr canu ac yn frawd i fam Mr.J.M.Jenkins, Neuadd-yr-ynys. 'Does gennyf i ddim cof am dad y Doctor, ond clywais lawer gwaith mai ef oedd y lladmerydd pan fyddai achos, yn achlysurol, disgyblu rhai o aelodau Tabor. Ond cofiaf ei fam yn dda; dynes fain dal oedd hi, ac er ei hoedran 'roedd yn syth fel saeth, a cherddai'n gyson i'r oedfaeon fore Sul. 'Roedd hi'n chwaer i'r rebel cymdeithasol rhyfedd hwnnw " 'Tifedd Glangors", baswr da mewn côr, ond aelod hollol annaturus mewn cymdeithas. 'Roedd mam y Doctor felly yn gyfnither i nhad, gan fod ei mam hi "Nanw Glangors" yn chwaer i nhadcu.

Ond nid oherwydd unrhyw berthynas â nhad yr oeddem ni'n treulio pythefnos o'r gwyliau yn y Fagwyr, a hynny dros sioe Tal-y-bont, ond oherwydd bod mam yn chwaer i'w briod. Merched y Grip oedden nhw wedi eu magu ar fferm fechan arall o ryw ddeugain cyfer yn yr un ardal. 'Roedd nhadcu hefyd yn berchen ei le, a daeth mamgu i'r etifeddiaeth ar ôl ei ddyddiau ef, a modryb y Fagwyr ar ôl ei dydd hithau. 'Roedd ei mam hwy yn ferch i David Jones, Troedfoel, Trefenter, gŵr o ben Mynydd Bach a llawer o ddoniau mentrus drygionus yr oes yn eiddo iddo. Mab Coedllys, Llanilar, oedd eu tad, a hwnnw yn hen deulu gafaelgar solet. Methodistiaid oeddynt hwy o'r ddwy ochr, a dyna paham yr ymaelodwyd yn Nasareth (M.C.) Tal-y-bont ar ôl dod i'r Fagwyr.

Tipyn o ddirgelwch oedd gwybod sut y llwyddodd y ffermwr bach o Gilfachgoed i godi Doctor yn yr oes honno, gan fod y coleg ymhell, a'r treuliau a'r costau'n uchel. Wrth gwrs 'roedd llawer o ffermwyr wedi rhoi ysgol i'w meibion yn Ystrad

Meurig gogyfer â mynd yn offeiriaid, ac yr oedd Doctor arall, Morgan Davies, Llundain wedi hynny, wedi ei godi yn y cylch. Diamau fod John James yn glyfar gyda'r llyfrau ac yn llwyddiannus gyda'r astudiaethau. Heblaw hynny 'roedd eisoes wedi dechrau caru â merch y Grip, a chlywais awgrym iddo gael help oddi yno ar ôl y dyweddïad.

Wedi graddio, daeth y Doctor i'r Fagwyr yn 1888, ac yn fuan wedyn daeth modryb yn wraig iddo. Bu hi farw yn ifanc ac ymhen rhai blynyddoedd ailbriododd y Doctor â gweddw Mr.Pryse Pryse, Gogerddan, ac aethant i fyw i Lodge Park yn 1909 ac ar ôl hynny i'r Borth (yn 1915).

Bu am gyfnod maith yn feddyg gwlad heb ei fath, yn alluog ac yn barchus, yn addfwyn a chydwybodol ac fe ddygodd urddas i'w alwedigaeth ac fe ddysgodd ufudd-dod i'w orchymyn. Gweithiodd yn galed fore, p'nawn, hwyr a nos. Cofiaf un yn sôn iddo fynd o Langwyryfon i'r Fagwyr - taith o dros bymtheng milltir - ar gefn poni i ymofyn y Doctor at enedigaeth yn 1888. Cyrraedd y Fagwyr am ddeg o'r gloch, ac ar ôl pryd, yn mynd drot, drot ill dau ar bob o boni yn ddigleber hollol. Gwedi genedigaeth lwyddiannus yna yn marchogaeth yr holl ffordd yn ôl erbyn toriad y wawr. 'Roedd yn feddyg da hefyd a chlywais ddywedyd na chollwyd yr un o'i gleifion a fu'n dioddef o'r "Flu" yn 1918-19, a bu honno yn achos marwolaeth mwy o bobl nag a laddwyd yn y Rhyfel Byd cyntaf.

Ychydig o'r Doctor a welem ni yn y Fagwyr yn ystod y bythefnos wyliau. Ni chodai'n fore, ac wedyn byddai'n gweld ei gleifion yn y surgery ac yn paratoi'r moddion iddynt - pils neu botel i bob un. Âi allan ar ei drafels ar ôl cinio cynnar, a byddem ni'r plant yn ein gwelâu ymhell cyn iddo ddychwelyd. Nid wyf yn meddwl fod ganddo lawer o amynedd â phlant chwaith, ond cofiaf yn dda amdano fel llawer arall yn ardal Tal-y-bont a Thaliesin. 'Roedd yn ddyn corffog, o faintioli ychydig yn fwy na'r cyffredin, ond nid oedd yn ddwylath o daldra. Gwisgai'n drwsiadus bob amser a chadwai farf ddu dros ei wyneb i guddio bwlch yn ei wefus. Yr oedd hollt yn ei daflod hefyd a siaradai'n drwynog. Anodd ei ddeall yn llefaru ar y dechrau. Nid oedd hyn yn anhawster iddo, a chofiaf ef yn cael hwyl anarferol wrth arwain cyngerdd yn Nhal-y-bont noson y sioe flynyddol, ac er cymaint y stŵr yn y cefn, pan godai ei law a'i lais buan iawn y byddai distawrwydd.

Ond os oedd ef yn cadw draw, 'roedd modryb neu Bodo Jane yn agos iawn aton, gan ofalu am ein holl anghenion. Hyfrydwch oedd mynd gyda hi yn y cerbyd am brynhawn i lan y môr yn y Borth neu ar y Sul i Nasareth. 'Roedd holl fywyd y Fagwyr yn troi o'i hamgylch hi, a gofynnai Evan Fronddel, asmatig ei frest, am drefniadau'r gerddi fel John Penpanc gyda'r gwair a'r ŷd. 'Roedd y gwas, heblaw bod yn gyfrifol am y ceffylau a'r cerbydau, yn gorfod gwneud ei ran gyda'r pum buwch, y lloi a'r moch, fel y forwyn gyda'r ffowls a'r tŷ. Hi oedd yn gofalu am y cŵn hefyd. 'Roedd y Doctor yn hoff o fynd allan gyda'r gwn, a dyna amcan cadw Don yr hen gi mawr coch a gwyn a'r spaniel fach flewog felen, heblaw yr ast oedd yn mofyn y da. 'Roedd llawer o natur ffermwraig dda yn perthyn i modryb, ac yr oedd cynhyrchu llaeth, menyn, wyau a ffowls ar gyfer y tŷ a'r farchnad yn rhan o'i phleserau. Weithiau byddai'r Doctor yn mynd â'r wyau i'w gwerthu i siop Williams Tal-y-bont, - sef tad Mr.B.T.Williams, C.S., Bow Street. Yn wahanol i fferm gyffredin, 'roedd sawl peth yn mynd ymlaen yr un pryd yn y Fagwyr: ffermio, garddio a doctora, pobl yn dod a phobl yn mynd, yr afiach a'r

anafus, ac felly 'roedd y gwyliau'n ddiddorol tu hwnt.

Ond y rhyfeddod pennaf oedd y stabal a'r tair poni oedd yn mynd â'r Doctor ar ei deithiau yn ei gerbyd neu farchogaeth weithiau, bob yn ail. Y gwas oedd yn gofalu am eu porthi a'u glanhau ac yn rhoi sglein anarferol ar yr harnais a'r byclau, y cerbydau a'r lampau bob bore. Byddai modryb weithiau yn galw am gerbyd, a'r cel du llonydd fyddai hi yn ei gael bob amser. Arferai'r Doctor fynd i'r dref o Landre bob p'nawn Llun gan ddal y trên dau. Cychwyn yn hwyr a mynd ar garlam fyddai'r stori bob amser a'r trên yn y stesion o flaen y Doctor. Ond gofalai'r stesion mastar drwy ffwdan efo un peth neu'r llall gadw'r trên nes iddo gyrraedd. Bu David Rees, o ben Mynydd Bach, sef brawd Prosser Rhys, yn was yno am flynyddoedd. Aeth ef wedyn i'r weinidogaeth gyda'r Annibynwyr, ond bu farw yn ddyn ifanc. Ar ei ôl daeth Dick Jenkins yn was yno, a chaem hwyl gydag ef hefyd.

'Roedd yn rhaid paratoi ar gyfer y Sioe Flynyddol yn Nhal-y-bont, a byddai'r Doctor yn cystadlu yn y 'Turnouts' heb fawr obaith ennill y lle cyntaf gan fod ei gefnder, W.R.Jones, Bryngwyn-mawr, yn un mor llwyddiannus.

Bob gwyliau byddem ni'r plant yn cael un trip gyda'r Doctor ar ei deithiau, gan eistedd yn y sedd ôl a oedd wrth gwrs yn wynebu tuag yn ôl. Edrychem ymlaen at y trip hwn, ond ymhell cyn diwedd y dydd 'roeddem wedi hen flino mynd ac aros am oriau mewn un pentref, pan fyddai ef yn ymweled â'r cleifion yn eu tai. Un tro 'roeddem wedi diflasu aros tu allan i dŷ yn Nhaliesin hyd ganol y prynhawn. Wedyn yn cael ar ddeall fod y Doctor wedi cynorthwyo gyda genedigaeth tri phlentyn (triplets), a'r fam a'i phlant yn gwella'n iawn.

Yn ei gylch ei hun 'roedd Doctor James yn boblogaidd, yn ŵr dawnus a doniol ac yn mwynhau yfed yn y gyfeillach. Ni ellid disgwyl yn wahanol a gwybod am ei dras. Nid ymwelai yn aml â Llangwyryfon, a rhyw duedd i ymddieithrio a ddaeth drosto ar ôl ailbriodi. Truenu oedd hynny, am fod ganddo gefndir a chymwysterau i gyfrannu llawer i'r diwylliant Cymreig.

Cysylltodd y Doctor a'i deulu ddwy ardal â'i gilydd. Bywyd llwm di-ramant wedi ei seilio ar amaethu, crefydd a cherddoriaeth a welodd yn Llangwyryfon. Ond 'roedd bywyd yn gyfoethocach yn ardal Tal-y-bont a Llangynfelyn a'r Bow Street. 'Roedd y gwŷr mawr yn eu plasau, y lliaws ar eu gwyliau, heblaw dynion cyffredin y diwydiannau yn <u>clients</u> iddo. Yr oedd yn y pentrefi mawrion hyn ddiwydiannau heblaw amaethu, gan fod y gwaith mwyn yn ffynnu a'r ffatrioedd gwlân yn brysur yn y blynyddoedd hynny. 'Roedd trên yn gyfleus yn Llandre, y lein fach yn mynd drwy Tal-y-bont i'r Hafan at y gwaith cerrig. Byddai'r cŵn hela yng Ngogerddan, a châi hefyd ddyddiau gyda'r byddigions allan yn saethu.

Llwyddodd i ennill parch ac edmygedd pob dosbarth ac, er bod y cyfleusterau'n brin, bu am oes yn ymgeleddu fel cymwynaswr mawr i ardal gyfan. Cafodd ergydion troeon garw yn ystod ei yrfa; colli mab ifanc a cholli priod yn gynnar. Yn y niwl ar y llechweddau dymchwelodd ei gerbyd dros y dibyn fwy nag unwaith, ond arbedwyd ef bob tro. Rhoddodd ei wreiddiau yn Llangwyryfon gadernid a chyndynrwydd ynddo a'i gwnaeth yn drech na'i amgylchiadau.

Bu farw yn ŵr o oedran teg ym "Mhenmorfa", ei gartref yn y Borth yn 1929, a chladdwyd ei weddillion mewn man unig ym mynwent Penrhyn-coch. Cofiaf yn dda y deyrnged a dalwyd iddo ddydd ei arwyl.

## ANN MORGAN

gan
J.R.Jones, Wern-deg, Tal-y-bont

Ni syllaf byth dros y rhesi beddau ym mynwent Tal-y-bont, heb gofio fod rywle yn eu mysg ddwylath brin o dwmpath barfog, lle y dodwyd gweddillion Ann Morgan, (neu Ann Bwc fel y gelwid hi fynychaf); ac er i chwarter canrif o aeafau ysgubo dros y twmpath hwnnw, erys yr atgofion amdani o hyd yn fyw yng nghof y sawl a'i hadnabu. 'Roedd Ann yn gymeriad !

Dynes fer ydoedd o ran maint, gyda thrwyn pwt, bachog, a dwy ysgwydd lydan yn crymu o dan bwysau'r blynyddoedd, ond yn batrwm o'r ffrâm gydnerth a fu iddi gynt. Ni fedrai ysgrifennu na darllen; nid oedd dim yn anghyffredin yn hynny, gan na chafodd ddiwrnod o ysgol, - profiad y rhan fwyaf o'i chydoeswyr. Dysgwyd Gweddi'r Arglwydd iddi yn Saesneg gan briod ficer a fu yn Llangynfelyn, a byddai yn eihadrodd yn uchel bob nos cyn noswylio, a'i pharablu yn un llinyn o eiriau digyswllt, a hynny ar un anadl; ond chwarae teg iddi ni wyddai ystyr cymaint ag un gair o'r weddi. Os na fedrem ni'r plant a glustfeiniai arni weithiau yn nhwll y clo ddeall ei geiriau, tebyg fod Un, llai beirniadol na ni, yn rhoi marc llawn iddi am ei gweddi yn y parlwr bach lle cysgai.

Ni dderbyniai ddim at ei chynhaliaeth ond ei chweugain pensiwn, ac ambell swllt gan y sawl a alwai heibio weithiau. Wrth 'nôl ei phensiwn ni chymerai bapur neu arian mân o wahanol faint; rhaid i Ann gael ei "phedwar pisyn mawr" neu "ddeg pisyn bach", ac rwy'n siŵr na threfnodd yr un canghellor ei gyllideb yn fwy medrus nag y gwnâi hi gyda'i "phedwar pisyn mawr" neu "ddeg pisyn bach". Cadwai'r ychydig geiniogau a fyddai'n weddill o'r arian bara mewn bocs Oxo ar y silff-pen-tân, i'w rhannu i'r plant a'i cynorthwyai i gario dŵr glân o'r pwmp cyfagos. Yr un modd cadwai arian y glo, y canhwyllau a'r ychydig negeseuon a brynai i gyd ar wahân, a thalai'r rhent i'r diwrnod.

Byddai'n selog am fynd i'r capel ym Methel, Tal-y-bont, lle 'roedd yn aelod, a byddai'n cyfrannu'n deilwng at yr Achos yno; ac os deuai am dro i Rehoboth, byddai'n gofalu am geiniog yn y casgliad bob amser. Wrth gerdded adre o Dal-y-bont ar fore Sul gyda Mari ei chwaer, meddai Ann wrth basio heibio i'r fynwent, "Fan hyn y byddwn ni'n dwy ryw ddiwrnod, os byddwn ni byw ac iach".

Treuliai oriau lawer ar garreg y drws, a byddai pawb yn gweiddi arni, ac ateb Ann i bob cyfarchiad "Ffor mae, Ann?" ydoedd, "Iawn diolch, ffor dech chi - ffor ma nhw gartre gydach chi?" boed y sawl a ofynnai yn gymydog neu ddieithryn.

Gan i mi fyw am rai blynyddoedd yn y drws nesaf iddi, galwn yn fynych yn ei bwthyn; ac er y byddai ei dwylo a'i hwyneb bob amser cyn ddued â'r parddu, cawn flas anghyffredin ar fochio aml gwlffyn o frechdan frown a dorrai imi.

Byddai fy mam yn rhoi cinio iddi bob Sul drwy'r flwyddyn, ond 'roedd un amod bendant gan yr hen wraig, - ni chymerai'r cinio a'r pwdin ar wahân; rhaid iddi ydoedd cael y ddau gwrs ar yr un plât. Byddai'n clirio'r pwdin yn gyntaf ac yna ymosod ar y cig a'r tatws. Felly y câi flas ar ei chinio-dydd-Sul. Gan ein bod yn gyfarwydd â'i dull ni welem ddim yn rhyfedd yn ei bwyta-o-chwith; hwyrach mai hi oedd yn iawn ! Yn yr hydref byddai'n prynu "ysgadan y Borth" i'w

halltu. Byddai yn eu coginio ar yr efel uwchben y tân a'u bwyta gyda thatws-drwy'u-crwyn, gwledd na newidiai Ann mohoni am ginio yr un gwesty.

Aeth gyda thrip Ysgol Sul Tal-y-bont i Aberteifi unwaith, siwrnai bell yn y dyddiau hynny. 'Roedd ar lawr wedi gwisgo'n barod ymhell cyn pedwar o'r gloch, gan ddisgwyl am y "Bus Corris" i alw amdani. Gan nad oedd ffenestri yn cau ac agor yn hwylus yn y bwsiau cyntefig hynny, ymgasglai chwys ac ager yn drwch drostynt, ac meddai Ann er ei bod yn ganol Mehefin, "Bois bach, mae'n rhewi'n galed". 'Roedd cael 'brec down' ar drip yn brofiad digon cyffredin yr adeg honno, ac felly y bu yn hanes y trip i Aberteifi. 'Roedd yn ddau o'r gloch y bore pan gyrhaeddodd adre, wedi gweld rhyfeddodau di-ben-draw, a thrigolion Taliesin yn dyrfa groesawus o flaen yr Oak yn ei derbyn o'r bws.

Pan gludwyd hi i'r ysbyty, wedi iddi syrthio a thorri'i braich, crefodd yn daer am beidio â mynd â hi i'r "pwros", ac er ei symud yno yn ddiweddarach, ni wyddai hynny hyd ei marw; er ei thlodi 'roedd ynddi ormod balchder i gartrefu mewn lle a edrychid arno braidd yn amharchus yr adeg honno. Cofiaf ei gweld yno unwaith - ei gwallt yn wyn fel y galchen, ei hwyneb a'i dwylo'n lân, a'i brat yn drefnus o'i blaen; ond rywsut yr Ann a dorrai'r frechdan frown yw yr un sy'n aros gliriaf yn y cof.

Bu fyw heb fod mewn dyled i neb, heb gas na chenfigen, yn hoffus a diniwed, a phan ddaeth yr awr iddi gefnu ar y byd llwm y bu ynddo am 87 o flynyddoedd, nid oedd ganddi ddim i'w ofni wrth gyfarfod â'i Barnwr - gan fod y ddau yn ffrindiau mawr.

-----o-----

## DETHOLIAD O WAITH Y DIWEDDAR WILLIAM ERNEST PUGH

### (a) Englynion

#### Yr Amaethwr

Gŵr hynaws, hen gâr anian - yn ei waith
    Yn wrteithiwr diddan;
Ei weryd a dry'n arian
A bwyd i'r byd, bedwar ban.

(O "Golofn Lên" y Cambrian News, 24.1.1947. Dyma a ddywed Mr.Dewi Morgan, golygydd y golofn: "Dyma englyn da drwyddo. Nid oes ynddo air di-ystyr a darllenna'n rhwydd. Dyma un o englynion gorau'r iaith ar y testun".).

#### Gŵr Pwyllog

Cynghorwr iach a thrachall - oer ei waed;
    Gedy ffrwst i arall.
Gŵyl yw ei sang, a'r angall
Yn neidio'n ddewr, ond yn ddall.

Y Beic Modur

'Gwylltfil' medd 'nhad, 'anfadwaith', - gan neidio
Rhag nwydau digyfraith;
I lu mae'n geffyl hywaith,
Buan y tynn i ben taith.

Y Mwyalch

Arllwys uwch gwlith fy mherllan - ei folawd
I felys gig peran;
A thâl y pwyth â hwyl pan
O'i irgell y gyrr hwyrgan.

Hen folgi er ei fawlgan
Beger du a'i big ar dân.

(Yr uchod o'r Cambrian News, 24.1.47.).

Y Cloc

Cyw taer yw un, "Cod, dere!" - a'i daid hyll
Yn dweud "Dos i'th siwrne";
Ond edrydd hen ffrind "Adre!"
Â'i gnul trwm o ganol tre.

(Buddugol Eisteddfod Rehoboth, Taliesin, Ion.1947).

Gwrid

Afiach baent ar foch bantog - nod eirias
Bun dirion, nod oriog;
Haenen rudd yn boen i rôg,
Tor calon, balchder ceiliog.

(Buddugol Eisteddfod Pont-ar-Fynach, Ebrill 1947).

Cantre'r Gwaelod

Offrwm gwyliwr anneffro - tir Maelgwn:
Trom weilgi a ddaeth drosto;
'Rhen lyncwr medd, hedd iddo!
Bae glas a gawsom, heb glo.

(Buddugol Eisteddfod Soar, Tre'rddôl, 1947).

Heddwch

Rhyw eurwawr wedi'r aerau - a wyliwn
Rhwng elwch ac ofnau;
Rhith yw, ni thâl; Mawrth ni thau,
Heb enw Iôr mae'n banerau.

(Buddugol Eisteddfod Ponterwyd, 15 Awst, 1947).

Cors Fochno

Erwau sôg wrth ddrws eigion; - hyd ei mawn
Rhed mall a chadnawon;
Â'i brwyn a'i hesg, briw hen, hon
Ar degwch Ceredigion.

(Buddugol Eisteddfod Bow Street, 28 Mai, 1948).

Cwpaned o De

I mi, digolyn ddiod; i'm Mali
Twym olew ei thafod;
Ar hin boeth help gorau'n bod,
A her India i ryndod.

(Buddugol Eisteddfod Rehoboth, Taliesin, Mawrth 1948).

Cwyn y Smygwr

Y Sadwrn, er pres sydyn - torri a wnaf:
Tri a naw am fygyn!
A gwêl Bet na ŵyr cetyn
Naws ei lond wedi nos Lun.

(Buddugol Eisteddfod Lledrod, 31 Hydref, 1947).

Y Fegin

Dwy asgell, tafod esgud - a 'sgyfaint
Braisg ufudd, pig hefyd;
Daw ar fer hynt, - gwynt i gyd -
Yn achles i dân nychlyd.

Tractor Ferguson

Hylaw olwynog haliwr - yw, a grym
Y llif gron a'r dyrnwr,
Yn was di-ail, er ei stŵr
I araf neu chwim yrrwr.

(Buddugol Eisteddfod Lledrod, 29 Hydref, 1948).

Yr Atom

Ronyn sy'n gawr o ynni, - fe rannwyd
Cyfrinach o'th hollti;
Ai nawdd i hedd a feddi?
Neu stôr nwyd ein dinistr ni?

(Buddugol Eisteddfod Llanelli, Mawrth 1950).

Ceiliog y Gwynt

Try'n braf ar uchaf echel; - rhy wasaidd
Groeso i bob awel;
A'r un sut, gŵr prin ei sêl
Sy'n daeogyn diogel.

(Cyd-fuddugol Eisteddfod Rehoboth Taliesin, Ebrill 1950).

Cloc y Dre (wedi sefyll)

Tŵr distŵr, nad yw'n 'styried - ein hyntoedd,
Na phwyntiau dim planed;
Ac, er mor wedd-agored,
Yn ddiddadl celwydd a ddwêd.

---

(b) Gorffen Limerig

Yn 1950, trefnwyd cystadleuaeth Llinell Goll gan Blaid Cymru. W.E.Pugh a gafodd yr ail wobr o £6 allan o rai miloedd o gystadleuwyr. Dyma'r limerig a'i linell ef.

"Ewch Gymry, i ymladd yn Asia
Dros ryddid a hedd yn Korea",
Oedd cyngor y Sais;
Ac yna daeth llais -
"Rhoi 'Mac' o flaen Arthur ni thycia".

---

(c) Cerddi

Y Tractor

1. Pa le mae Alun Mabon
Y llanc â'r raenus foch,
Ffrind mwyaf "Star" a "Siole"
A meistr yr aradr goch?
Fe'i galwyd i drin arfau,
A'i ddau ffrind ynt ynghlwm
Yn troi eu pennau i wrando
Swn tractor yn y cwm.

2. Tractor, cel dur ac olew
Yw'r cryfa' a ddaeth trwy glwyd
I helpu ateb galwad
Am dyfu mwy o fwyd.
Gall dynnu aradr deircwys
Neu'r beinder yn ei dro;
Nid oes mo'i well am glirio
Perthi diffeithwch bro.

3. A thrwy ei waith diffwdan
Mae'n ennill - pwy a'i gwâd?
Lle teilwng iddo'i hunan
Ar erwau drud ein gwlad.
Ond eto, yn fy mreuddwyd
"Star!" "Siole!" a ddaw i'm clyw;
A gwelaf wedd urddasol
Ac Alun wrth y llyw.

(Buddugol Eisteddfod Nazareth, Tal-y-bont, Chwefror 1943).

## Y Llais

Bu cawr â'i ddig ar draws y fro
Yn gwasgu'r lliwiau cain dan glo,
Ei oeraidd gri'n arswydo'r gwan,
Ei bicell lem yn creithio'r llan.

Ond llais a ddaeth i'm hunig gell,
Fel atsain hwyl y dyddiau pell,
Llais geneth lon a'i stori iach
Am"newydd wyrth" ei border bach.

Ciliodd y muriau gorthrwm draw,
A gwelwn haul â'i dyner law
Yn deffro dôl, yn urddo llwyn,
A chwarae mig â'r gawod fwyn.

Dawns gyda'm calon, ddaffi dlos,
Dawns gyda'th gâr a wybu nos,
Tyrd eirlys lân, cân dithau gnul, -
Daeth awr rhoi'r cawr i'w feddrod cul.

(O'r "CYMRO", 12 Ebrill, 1946).

## Tri Darlun

Cleddyfau pren, hen utgorn,
 Drylliau di-dân a drwm
Ac ymgyrch dewr, dan fendith Mot,
 Yn torri hedd y cwm.

Cornel o feddau ysgeifn,
 Croesau o bren di-lun,
Trymgwsg nas tyr na thân na gwaedd
 Na chorn ond yr olaf un.

Malen yn llesg dan bwysau
 Yr hiraeth na fyn fedd,
Â'i heulwen mwy yng ngwên y crwt
 Sy'n prysur naddu cledd.

(O'r "CYMRO", 14 Mehefin, 1946).

Pen y Daith

"Mae'r gwynt 'ma yn difa, Sian Dafis,
Mae'n dal yn y dwyrain yn dynn...
A phle mae hi'r gwcw eleni
Na chanodd cyn hyn?"

"Fe ddaw eto, Twm, paid a phoeni",
Gan dwtio ei glustog â gwen,
"Mae'r siwrnai yn faith, Twm, a hithau
Fel minnau'n go hen".

Mor hir y bu'r oerwynt yn taenu
Ei adwyth ar lawr ac ar lwyn!
Ond oerach y glust a fu'n gwrando
Heb ddeall ei gŵyn.

'Roedd awel o'r de yn yr ywen
I eilio ein ffárwel i Twm;
'Roedd lludded yn neunod hen gwcw
A groesodd y cwm.

(Buddugol Eisteddfod Rehoboth, 1947).